6 Hydref 2021

Annwyl Ddysgwr

GWYBODAETH AM ARHOLIADAU YN 2022

Gobeithio eich bod chi'n mwynhau'r dechrau'r flwyddyn academaidd newydd, er bod llawer o heriau o hyd, ac mae effaith y pandemig yn dal i effeithio arnoch chi. Rydym am roi gwybod i chi am y cynlluniau sydd ar waith ar gyfer y cymwysterau rydych chi'n eu hastudio ar gyfer eleni.

Haf 2022 - cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch, a'r Dystysgrif Her Sgiliau
Gwnaethom ysgrifennu atoch chi ym mis Mawrth i ddweud y bydd cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch haf 2022 yn cael eu hasesu drwy arholiadau ac asesiadau di-arholiad, ar gyfer cymwysterau sydd ag asesiadau di-arholiad.

Fel y gwyddoch efallai, mae CBAC wedi gwneud newidiadau i'r cymwysterau ar gyfer haf 2022 yn dilyn ymgynghoriad byr gydag ysgolion, colegau, dysgwyr a rhieni yn gynharach yr haf hwn. Mae gwybodaeth am y newidiadau hyn ar gael ar wefan CBAC. Mae'r newidiadau hyn ar waith oherwydd yr aflonyddwch i'ch dysgu a achoswyd gan y pandemig (yn y flwyddyn flaenorol ac yn ystod y flwyddyn academaidd hon). Maen nhw'n wahanol ym mhob cymhwyster a byddant yn eich helpu i ganolbwyntio'ch amser ar baratoi ar gyfer eich arholiadau yr haf nesaf.

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Sut y bydd cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch, a'r Dystysgrif Her Sgiliau yn cael eu graddio yn haf 2022?
Ar ôl i'ch arholiadau a'ch tasgau asesu di-arholiad gael eu marcio, bydd CBAC yn dyfarnu'ch graddau. Rydym eisiau i'r broses raddio fod mor deg â phosibl i bob dysgwr ac adlewyrchu'r aflonyddwch i addysgu a dysgu rydych chi wedi'i brofi yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ac efallai y byddwch chi'n eu profi eleni.

Ar gyfer haf 2022, bydd y dull gweithredu yng Nghymru yr un fath â rhannau eraill o'r DU fel bod pob dysgwr yn cael ei drin yr un peth. Mae hyn yn golygu y bydd canlyniadau haf 2022 yn adlewyrchu pwynt hanner ffordd yn fras rhwng y canlyniadau yn 2021 a 2019. Yn 2023 byddwn yn anelu at ddychwelyd at ganlyniadau sy'n unol â'r rhai mewn blynyddoedd cyn pandemig.

Teimlwn mai dyma'r cydbwysedd gorau rhwng anghenion dysgwyr sy'n sefyll cymwysterau yn 2022 a thegwch i ddysgwyr a enillodd gymwysterau cyn y pandemig ac a fydd yn sefyll cymwysterau yn y dyfodol. Mae hefyd yn bwysig bod gennych gymwysterau sydd yr un gwerth â'r rhai a gymerir gan ddysgwyr o rannau eraill o'r DU fel y gallwch chi symud ymlaen i goleg, cyflogaeth neu brifysgol.

Beth fydd yn digwydd os na all arholiadau fynd yn eu blaen yn haf 2022?
Disgwyliwn i arholiadau gael eu cynnal fel y cynlluniwyd ac mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y cânt eu canslo. Ond os bydd y gyfres arholiadau yn cael ei chanslo, yna bydd angen dull wrth gefn (cynllun wrth gefn). Gofynnir i'ch ysgol neu goleg ddyfarnu'ch graddau yn seiliedig ar eich gwaith mewn asesiadau ar draws y cymhwyster. Bydd y broses yn debyg i'r un a ddefnyddiwyd yn haf 2021. Bydd eich ysgol neu goleg yn dweud wrthych pa asesiadau y gallent eu defnyddio. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau pellach i'ch ysgol neu goleg ym mis Tachwedd i'w helpu i wneud hyn.

Beth sy'n digwydd gyda chymwysterau galwedigaethol?
Mae newidiadau ar waith ar gyfer asesu cymwysterau galwedigaethol yn 2021/22. Bydd eich ysgol neu goleg yn gwybod pa newidiadau sydd ar waith ar gyfer y cymwysterau rydych chi'n eu hastudio. Os yw eich cymhwyster galwedigaethol yn cael ei asesu trwy arholiad, bydd y rhain yn mynd yn eu blaen fel y cynlluniwyd yn 2021/22. Fel ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch, os bydd y gyfres arholiadau yn cael ei chanslo, bydd trefniadau wrth gefn (cynllun wrth gefn) yn cael eu rhoi ar waith.

Ydy cyfres Gaeaf 2021/22 yn mynd yn ei blaen?
Bydd cyfres Tachwedd 2021 ar gyfer TGAU mewn Saesneg Iaith, Mathemateg, Mathemateg-Rhifedd a Cymraeg Iaith yn digwydd gyda'r un addasiadau.

Bydd yr addasiadau hefyd yn berthnasol i unedau TGAU Llenyddiaeth Saesneg a Llenyddiaeth Gymraeg, ac i gydrannau'r Dystysgrif Her Sgiliau fydd ar gael ym mis Ionawr 2022. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am yr addasiadau hyn ar wefan CBAC – Addasiadau ar gyfer Cymwysterau CBAC TGAU, UG a Safon Uwch yn 2022 (cbac.co.uk).

Negeseuon ar eich cyfer chi

Rydym yn gwybod y gallai fod gennych chi a dysgwyr eraill bryderon ynghylch dychwelyd i arholiadau ac rydym yn cynllunio ystod o gyfathrebu i'ch cefnogi yn ystod y misoedd nesaf. Yn ddiweddar rydym ni wedi diweddaru ein gwefan i geisio ei gwneud yn haws i chi gael gwybodaeth. Byddwn yn anfon gwybodaeth atoch trwy eich ysgol neu goleg yn ystod yr wythnosau nesaf. Bydd gwybodaeth ar gael ar ein gwefan ar gyfer ymgeiswyr preifat. Dilynwch ni ar Instagram, Twitter neu Facebook i gael y wybodaeth ddiweddaraf.

Yn gywir

Philip Blaker

Prif Weithredwr

6 October 2021

Dear Learner

INFORMATION ABOUT EXAMS IN 2022

We hope you are enjoying the start to the new academic year even though there are still many challenges, and you are still being affected by the impact of the pandemic. We want to let you know about the plans in place for the qualifications you are studying for this year.

Summer 2022 – GCSEs, AS and A levels, and the Skills Challenge Certificate qualifications

We wrote to you in March telling you that the summer 2022 GCSEs, AS and A level qualifications will be assessed by exams and non-examination assessment (NEA), for qualifications that have NEA.

As you may know, WJEC have made changes to the qualifications for summer 2022 following a short consultation with schools, colleges, learners and parents earlier this summer. There is information about these changes available on WJEC's website. These changes are in place because of the disruption to your learning caused by the pandemic (in the previous year and during this academic year). They are different in each qualification and will help you to focus your time when it comes to preparing for your exams next summer.

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

How will GCSEs, AS and A levels, and the Skills Challenge Certificate qualifications be graded in summer 2022?
Once your exams and NEA tasks have been marked, WJEC will award your grades. We want the grading process to be as fair as possible to all learners and to reflect the disruption to teaching and learning that you have experienced over the last two years and may experience this year.

For summer 2022, the approach in Wales will be the same as other parts of the UK so that all learners are treated the same. This means that in summer 2022 results will reflect broadly a midway point between the results in 2021 and 2019. In 2023 we will aim to return to results that are in line with those in pre-pandemic years.

We feel this is the best balance between the needs of learners sitting qualifications in 2022 and fairness to learners who sat qualifications before the pandemic and who will sit qualifications in the future. It is also important that you have qualifications that are of equal value to those taken by learners from other parts of the UK so that you can move on to college, employment or university.

What happens if exams cannot go ahead in summer 2022?
We expect exams to take place as planned and that they will only be cancelled in exceptional circumstances. But, if the exam series is cancelled, then a contingency approach (a backup plan) will be needed. Your school or college will then be asked to award your grades based on your work in assessments across the qualification. The process will be like the one that was used in summer 2021. Your school or college will tell you what assessments they might use. We will be issuing further guidance to your school or college in November to help them do this.

What is happening with vocational qualifications?
Changes are in place for the assessment of vocational qualifications in 2021/22. Your school or college will know what changes are in place for the qualifications you are studying. If your vocational qualification is assessed by exam, these will go ahead as planned in 2021/22. As for GCSE, AS and A level qualifications, if the exam series is cancelled, contingency arrangements (a backup plan) will be put in place.

Is the Winter series 2021/22 going ahead?
The 2021 November series for GCSEs in English Language, Mathematics, Mathematics-Numeracy and Welsh Language will be taking place with the same adaptations. The adaptations will also apply to GCSE English Literature and Welsh Literature units, and to Skills Challenge Certificate components available in January 2022. You can find details on these adaptations on WJEC's website - 2022: Everything you need to know (wjec.co.uk).

Communications for you

We know you and other learners may have concerns with the return to exams and we are planning a range of communications to support you in the coming months. We have recently updated our website to try to make it easier for you to get information. We will send information to you via your school or college in the coming weeks. There will be information available on our website for private candidates. Follow us on Instagram, Twitter or Facebook for the latest information.

Yours sincerely

Philip Blaker
Chief Executive